# YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 6] MEHEFIN, 1924. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

ODDIAR Y TWR.

RHYDDID.

A

LWK-SI.

CYFNODAU YN HANES PAUL.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

*Llandyssul:*
*Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.*

# YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.



COFIWCH AM . . .

**Dydd Mercher, Mehefin 11eg, 1924**

.. CYNHELIR ..

## BAZAAR FAWREDDOG

**YN NEUADD PANTDEFAID.**

Fe'i hagorir am 2 o'r gloch gan R. HOPKIN MORRIS, Ysw., A.S.

— *Yr Elw i'r Gronfa Adeiladu.* —

## —AIL GASGLIAD O—

## EMYNAU A THONAU

. . AT WASANAETH . .

Cymanfa Gerddorol Undodaidd Ceredigion.

Pris 9c., Amlen Bapur. Gellir cael Copiau wedi eu rhwymo mewn Llian—*Cloth Binding, 3s. 6c.*

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

## T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

***Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.***

# YR YMOFYNYDD.

**Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.**

*"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."*

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1924. [CYF. XXIV. RHIF 6.

## ODDIAR Y TWR.

PERWYD imi gryn syndod pan ddarllenais ychydig ddyddiau'n ol bod uwchlaw tair mil o offeiriaid yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr wedi ymdynghedu i wneud a allant i adfer Pabyddiaeth ym Mhrydain, a bod cynifer o Eglwysi y ffynna arferion Pabyddol yn-ddynt. Dywedir y cynhelir cyrddau gweddi a barha'n fynych drwy gydol nos gyfan i erfyn am droedigaeth poblogaeth Prydain at y wir ffydd, ac i freichiau'r fam Eglwys; a'r wir ffydd yw'r ffydd Babyddol a'r fam Eglwys yw'r Eglwys Babyddol. Ni esgeulusa'r offeiriaid hyn a'u cefnogwyr un cyfleustra na chyfrwng a all fod o gymorth iddynt i gyrraedd eu hamcan; y maent o ddifrif—rhinwedd ganmoladwy iawn mewn achosion teilwng.

* * *

Yn ychwanegol, dywedir y cynhydda'r Eglwys Babaidd gyda chyflymder rhyfeddol. Ychydig amser yn ol gwelais ystadegau o'i safle bresennol ac o'i safle ychydig flynyddoedd yn ol. Nis cofiaf y ffigyrau ar hyn o bryd; eithr amlygent imi gynnydd tu fewn i ychydig o flynyddoedd nad oedd gennyf un dirnadaeth ei fod yn bosibl cyn imi eu darllen; a chynnydd nad allai lai na pheri syndod, ac arswyd o bosibl, i Brotestaniaid ein gwlad pe medrent sylweddoli eu harwyddocâd. Y mae ei chynnydd hyd yn oed yng Nghymru yn fawr rhyfeddol.

* * *

Gwlad rydd yw hon; ac y mae gan bopdyn gyflawn hawl i gredu a dysgu beth bynnag a ymddengys iddo ef yn wir. Nid oes ynof ond edmygedd o sel aelodau'r Eglwys Babaidd—yn offeiriaid a lleygwyr—dros ledaeniad eu ffydd. Eithr y mae ymddygiad y tair mil—mwy neu lai o offeiriaid Eglwys Loegr i ddadsefydlogi Protestaniaeth eu Heglwys yn anheyrngarol, a dweyd y lleiaf; oblegid Eglwys Brotestanaidd yw'r Eglwys Sefydledig; ac y mae pob offeiriad tan ddiofryd ar fod yn amddiffynnwr o honi fel sefydliad Protestanaidd. Rhwng Protestaniaeth a Phabyddiaeth y mae cagendor na ellir ei bontio.

I'r sawl sydd gyfarwydd â hanes y pum canrif diweddaf—yn wir, â hanes y pymtheg canrif diweddaf, belled ag y mae a fynno hanes â'r Eglwys Gristionogol—ni all y ddwy ffaith y cyfeiriwyd atynt lai na pheri cryn fesur o bryder; oblegid sefyllfa llawn o berigl ydyw: gwelwn y'n dygir nes-nes at yr adeg pan adfeddianna'r Eglwys Babaidd ei gallu a'i hawdurdod yn ein gwlad. A phan ddigwydd hyn, bydd hynny o ryddid a feddwn mewn perigl o fynd i golli. Dyna, o leiaf, un wers a ddysgir inni gan hanes—mai gelyn rhyddid yw'r Babaeth.

* * *

Anerchiad diddorol, yn enwedig amserol, yn y cysylltiad hwn oedd eiddo Mr. W. S. Jones, yn Nghilie. Gresyn nas ceid wedi ei argraffu'n bamphledyn, modd y gellid ei daenu led-led gwlad, a rhoi i'r do ieuanc gyfle i'w ddarllen gyda'r hamdden a'r manylder a haedda; oblegid cenadwri gyffredinol yw ei genadwri, ac nid cenadwri i un enwad. O'i ddarllen fe geid cipolwg ar y modd yr enillwyd ein rhyddid. Nid gennym ni y'i henillwyd: "eraill a lafuriasant"—hyd at garchar a'r ystanc yn fynych; a "ninnau a aethom i mewn i'w llafur hwynt". dyna'r cwbl a wnaethom ni. Yn ein tawelwch, wrth fwynhau o honom ffrwyth llafur y tadau, ein perigl yw anghofio'u brwydrau a'u dioddefiadau; anghofio hefyd, y pris mawr a dalwyd am ein breintiau gwerthfawr. Drwy wyliadwriaeth ofalus y gallwn gadw ein rhyddid, ac eangu ar derfynau i'r oesau a ddel.

* * *

Pamphledyn diddorol ac amserol arall yn cyffwrdd â'r un mater a ddaeth i'm llaw yn ddiweddar yw eiddo Dr. Mellone, Ysgrifennydd y Gymdeithas Undodaidd Saesneg, yn dwyn y teitl—"Crefydd Awdurdod a Chrefydd Rheswm." Nid oes, medd ef, ond dwy grefydd—crefydd seiliedig ar awdurdod allanol; a chrefydd seiliedig ar reswm. Cynrychiolydd y blaenaf yw'r Eglwys Babaidd, ar un llaw, a Phrotestaniaeth Iawnffyddol, ar y llaw arall; a chynrychiolydd yr ail yw Undodiaeth. Yr awdurdod allanol yn achos y Babaeth yw'r Eglwys; yn achos Protestaniaeth Iawnffyddol, y Beibl. Yng nghyfeiriad y ddwy ffurf hyn ar grefydd y gogwydda meddwl ein hoes. Pa un o honynt a gipia'r dorch—a ddaw allan o'r frwydr yn tuddugoliaethus? Dyna gwestiwn pwysig y dyfodol agos.

* * *

"Pe peidiwn i â bod yn Undodwr," medd y Dr., "heb syrthio o honof i Agnosticiaeth neu Anffyddiaeth, yr Eglwys Babaidd fyddai'r unig ddewisiad. Pam? Pan ymwrthodir â Rheswm a Chydwybod a Phrofiad fel sedd awdurdod, yr Eglwys Babaidd yw'r unig Eglwys fedr wir lanw'r bwlch.

* * *

Dylid bod yn ofalus i ymochel rhag rhoi i'r gair Undodwr yn y cysylltiadau hyn ystyr rhy gyfyng: dylid ei ddeall, nid fel term

enwadol, ond fel term a ddynoda ogwydd feddyliol neilltuol—yr ogwydd i ddeall Cristionogaeth Iesu yng ngoleu Rheswm, Cydwybod, a Phrofiad. "Ymgais yw Undodiaeth," medd y Dr., i ymdrin â Christionogaeth fel yr ymdriniodd sylfaenydd Cristionogaeth â chrefydd ei fobl ei hun; i osod y pethau cyntaf (pwysicaf) yn gyntaf (yn flaenaf); i afaelyd yn yr hanfodion a'u gwneud yn effeithiol mewn meddwl a bywyd."

* * *

Bob yn dipyn fe ddaw'r ddwy olwg hyn ar grefydd yr unig ddwy olwg – crefydd seiliedig ar awdurdod allanol a chrefydd seiliedig ar awdurdod fewnol. Y mae'n bosibl nas gelwir yr olaf wrth yr enw Undodiaeth, er mai Undodiaeth y'i gelwir ar hyn o bryd. Nid yw enwau o un pwys; eithr y mae goruchafiaeth un ar y llall yn anferthol bwysig—goruchafiaeth yr olwg ryddfrydig ar yr olwg geidwadol. Ynglyn â'r olwg ryddfrydig y mae cynnydd yn bosibl; dirywiad yw'r unig ganlyniad posibl o fuddugoliaeth yr olwg geidwadol. Pwy sydd ddigonol i'r frwydr? Yn ol yr arwyddion presennol, ni ellir osgoi'r frwydr.

* * *

Yn ol Llywydd Undeb y Bedyddwyr, yn ei anerchiad rhagorol yng Nghyrddau Blynyddol yr Undeb yng Nghaerdydd ddechreu Mai, pedwar cymeriad nodedig—eithriadol nodedig—yn hanes Cristionogaeth ydynt—Paul, Awstin, Luther a Wesley. Trwy offerynoliaeth Paul fe achubwyd Cristionogaeth rhag dirywio o honi i sect Iddewig, torwyd i lawr ganolfur gwahaniaeth rhwng Iddew a Chenedlddyn, a dechreuodd Cristionogaeth ar ei gyrfa fel crefydd i'r ddynolryw'n gyffredinol. Tua'r bedwaredd ganrif, pan oedd ddiogel i broffesu Cristionogaeth, fe wynebid yr Eglwys gan berigl o natur wahanol—cael ei llyncu a'i difodi gan y baganiaeth y delai i gyffyrddiad â hi ar bob tu. Dyna pryd yr ymddangosodd Awstin, "y dysgawdwr mwyaf (yn ol Dr. Glover) a adnabu'r Eglwys am bedair canrif ar ddeg." Bu Awstin yn offeryn i roi bywyd a chyfeiriad newydd i'r Eglwys, a'i hachub rhag y dinystr a'i bygythiai. Tua deg canrif ar ol Awstin daeth Luther; a bu yntau yn offeryn i achub yr Eglwys rhag cael ei mygu gan ddefodaeth farw a phydredd moesol yr Eglwys Babaidd. Yn olaf, yn y ddeunawfed ganrif, adeg o drai anghyffredin ym mywyd yr Eglwys yn gyffredinol, gyda throedigaeth a chenhadaeth Wesley, fe'i deffrowyd i fywyd newydd, a esgorodd ar y fath ar fudiadau bendithiol a'r diwygiadau crefyddol yn yr oll o'r Deyrnas Gyfunol. Yn hyn oll gwelai Dr. Glover dystiolaethau o law arweiniol Duw yn "achubiaeth y byd."

* * *

Y mae'r Eglwys yn y dyddiau diweddaf hyn ynghanol—efallai yn nesu at derfyn—un o adegau'r trai yn ei hanes. Dyna'i chyflwr am (o leiaf) y deng mlynedd (efallai ugain mlynedd) diweddaf. Fe obeithid gan lawer y delai deffroad ar ol profiad chwerw y pedair

blynedd o ryfel yr aeth y byd (Ewrop yn neilltuol) trwyddo. Yn araf iawn y daw'r gobaith yn ffaith. Eithr credaf y gwelir arwyddion fod toriad y wawr yn neshau. Ni chlywir agos cymaint, bellach, am fethiant yr Eglwys, ag a glywid ychydig flynyddoedd yn ol. Bu adeg pan syrthiai gweinidogion megis ar draws ei gilydd yn eu hawydd i roi ergid i'r Eglwys, drwy ei chondemnio fel methiant. Y mae'r ffolineb hwn—oblegid ffolineb digymysg ydoedd—yn cilio i'r cysgod. Y mae'r byd crefyddol megis mewn gwewyr bywyd newydd. Y mae'r Eglwysi'n dod fwy-fwy byw i'w cyfleusterau godidog—nid mor fyw, o bosibl, ag y gallant fod, ond yn fyw er hynny. Yr hyn sy'n eisiau yw ymddangosiad rhyw broffwyd wedi ei gyffwrdd gan "farworyn oddiar yr allor," cyffelyb i broffwydi mawr y Beibl—cyffelyb i Paul ac Awstin, a Luther a Wesley.

* * *

Dywed yr ail-ddyfodiaid fod Iesu Grist ar ddychwelyd i'r ddaear. Dyna fyrdwn eu cân yn eu Cynhadledd yng Nghaerdydd ddechreu Mai, yn wir, dyna fyrdwn eu cân ymhob cyfarfod o'r eiddynt. Nid syniad an-efengylaidd yw hwn: y mae'n nodwedd amlwg o bron yr oll o lyfrau y Testament Newydd. Dywed Iesu (yn hytrach, fe ddyry'r haneswyr eiriau yng ngenau Iesu i'r perwyl) y rhagflaenid ei ail-ddyfodiad (oedd yn agos) gan arwyddion neilltuol ym myd natur a chymdeithas. Tybia'r Ail-ddyfodiaid y gwelant gyflawniad o'r arwyddion hyn yn ein dyddiau ni; dyna sail eu honiad fod ail-ddyfodiad Iesu yn agos. Nid tebig y daw Iesu yn ol, dyweded yr Ail-ddyfodiaid a ddywedont. Ei ddyfodiad yn ysbryd ei fywyd yng nghalon rhyw broffwyd mawr sydd eisiau. Y daw'r proffwyd hwn (proffwydi, o bosibl) yn amser Duw ei hun, nid oes ynof rith o amheuaeth. "Nid yw Duw wedi marw, fel na sieryd byth mwy."

* * *

Dyddiau cynhyrfus, ystormus ddigon, yw'n dyddiau ni. Os yw hyn yn arwydd ddigonol o ddyfodiad Iesu neu o neshâd amser gwell, yn sicr y mae hynny'n agos. Dyma stori a chenadwri o obaith ynddi i'n hamser. Yr oedd dau gyfaill yn croesi'r Pyrenees—y mynyddoedd uchel rhwng Ffrainc a'r Yspaen; ac fe'u goddiweddwyd gan y nos yng nghanol yr uchelderau. Ar ol gosod o honynt i fyny rywfath o babell i'w cysgodi, fe orweddasant; a chan eu bod yn flinedig, syrthiasant i freichiau cwsg yn ddiymdroi. Ymhen tipyn fe'u deffrowyd gan ystorom erwin; fe'u hamgylchid gan dduwch nos; rhuai'r gwynt, chwythwyd eu pabell i'r eangder, rhuthrai arnynt feini anferth o'r clogwyni uwch eu pen. Ymhen ychydig, tawelodd yr ystorm, ac meddai un wrth y llall, "Dyma ddiwedd y byd yn ddiameu." "O na," oedd yr ateb, "Dyma sut mae'r wawr yn torri ar y Pyrenees—fe'i rhagflaenir gan ystorm." "Os yw'r storm yn flin a garw," fe dyr y wawr yn y man—gwawr dydd gwell, gadawer inni obeithio.

* * *

Ydyw, y mae'n sicr y daw deffroad. Ond ni all un deffroad ateb ei ddiben goreu oni all fynd at wreiddyn y drwg yng nghalon dyn a'i ddifa. Dyma bennill o eiddo'r bardd a'r proffwyd Cymreig—Derfel—a fedd genadwri i bob oes.

"Oferedd disgwyl gwawl o wyll,
Na phethau hardd o bethau hyll;
O ddrwg, drygioni, gwae, a braw,
Yn gnwd toreithiog fyth a ddaw;
Ni ellir cael mewn mwg a tharth,
Ond hacrwch, bryntni, poen a gwarth;
Mewn pydredd ni all purdeb fyw;
Gwnai mangre aflan ddiawl o Dduw."

* * *

Cyfeiriais eisioes at gyrddau Undeb y Bedyddwyr yng Nghaerdydd. Ddeuddeg mlynedd yn ol cefais y fraint o fod yn bresennol yn un o gyrddau'r un Undeb yn yr un ddinas. Euthum yno i'r unig ddiben o glywed y Cymro adnabyddus—y Parch. T. Phillips, o Bloomsbury. Oedfa i'w chofio oedd honno, ar gyfrif dwyster tawel ond angherddol y pregethwr, a'r teimlad dwfn a wefreiddiai'r gynnulleidfa fawr wrth wrando o honynt ar y genadwri a ddiferai dros ei wefusau. Nis anghofiaf yr oedfa honno tra'r ochr yma i'r afon. O ddarllen hanes gweithrediadau'r Undeb y dydd o'r blaen, braidd na theimlwn y difrifwch a nodweddai'r cyfarfodydd; ac os dyna'r effaith ar un a ddarllenai'r hanes ar bapur, beth oedd yr effaith ar y presenolion. Yn ddiddadl, adeg o adfywiad ydoedd iddynt a'u haddasai o'r newydd ar gyfer eu llafur yn eu gwahanol gonglau o'r winllan fawr.

* * *

Dygaf y llith hon i derfyn drwy ddyfynnu'r diweddglo i anerchiad Llywydd yr Undeb (Dr. Glover): "Os siaradwch wrth ddynion am bechod heddyw, nis gwrandawant – fe dybiant mai'r hen ddiwinyddiaeth ydyw. Os siaradwch wrthynt am allu—gallu Crist, gallu cariad, i godi a glanhau a chryfhau dyn—fe wrandawant. Po fwyaf a ddysgaf am Dduw, llai-lai cymwys y teimlaf fy hun i'w esbonio. Po fwyaf a wn am Grist, mwy-fwy y teimlaf y cymer imi flynyddoedd i ddyweyd yr hyn a feddyliaf am dano. Eithr nid yw pobl yn awyddus i wybod ein barnau am Grist. Nis bodlonir pobl sychedig gan wybodaeth o'r elfennau a gyfansodda ddwfr; dyferyn o ddwfr i yfed sydd eisiau arnynt hwy. Ni allaf esbonio Duw a Christ; eithr *gwn fod ynddynt allu i godi dyn.* Ac y mae hyn yn ddigon."

# RHYDDID.

*Anerchiad draddodwyd gan Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., Aberystwyth, yng Nghiliau, Ebrill 23, 1924.*

---

Pe codwn destun yn ffurfiol, seiliwn fy sylwadau ar y geiriau, "Dan obaith y rhyddheir y creadur yntau hefyd, o gaethiwed llygredigaeth, i ryddid gogoniant plant Duw" a welir yn llythyr yr Apostol Paul at y Rhufeiniaid, yr wythfed bennod, a'r unfed-adnod-ar-hugain. Y pwnc y bwriadaf siarad arno ydyw "Rhyddid."

Y mae llawer gwedd ar Ryddid. Ceir (1) Rhyddid corfforol neu bersonol; (2) Rhyddid politicaidd neu gymdeithasol; (3) Rhyddid crefyddol, a (4) Rhyddid moesol ac ysbrydol.

Nid yr un wedd ar Ryddid ydyw'r fwyaf pwysig, neu o leiaf a hawlia fwyaf o sylw, mewn gwahanol oesau. Dibynna hynny ar gyflyrau dynion a chymdeithas mewn unrhyw oes. Gwahaniaetha'r problemau sydd i'w hwynebu ymhob oes, a thyna a benderfyna i raddau helaeth gyfeiriad ymdrechion dyngarwyr a ddiddora eu hunain yn naioni a lles y ddynoliaeth; fe amrywia gofynion dynion o bryd i bryd.

Y mae Rhyddid, fel egwyddor, yn beth a werthfawroga pob dyn; y mae'n beth y mae ganddo hawl Ddwyfol iddo, cyhyd ag y peidia, drwy ei Ryddid ei hun, ag ymyru â gwir Ryddid ei gyd-ddynion.

Yn herwydd diffyg amser, ni fwriadaf son ymhellach heddyw am Ryddid personol a Rhyddid cymdeithasol; cyfeiriaf eich sylw am ychydig at Ryddid crefyddol a Rhyddid moesol.

## I.—Rhyddid Crefyddol.

Ychydig, os dim, a wyddom ni heddyw am gaethiwed crefyddol, ond trwy hanes yn unig. Er hynny i gyd, nid bob amser y mae dynion wedi bod yn rhydd i feddwl a barnu drostynt eu hunain ar faterion crefyddol, pynciau'r ffydd, ac yn y blaen, ac i addoli Duw yn y man a fynnent ac yn y modd a welent hwy yn oreu.

Un o'r pleserau a fwynheais yn ddiweddar oedd ceisio ymgydnabyddu tipyn o'r newydd â hanes crefydd ym Mhrydain Fawr. Hanes tywyll, hanes erchyll, ond eto hanes cyffrous a gogoneddus yn ei ddatguddiad o ffyddlondeb y saint i'w hargyhoeddiadau ydyw'r hanes hwn. Yr ydych i gyd yn gynefin a phrofedigaethau St. Paul (2 Cor. ii. 23—27), ac nid oes angen i mi ddifynnu o'i ysgrifeniadau.

Tebyg i eiddo Paul fu hefyd brofiad y saint am ganrifoedd rai yn y wlad hon yn eu hymdrech am ryddid i addoli Duw yn eu dull eu hunain, ac yn erbyn llygredd yr Eglwys Wladol, y llywodraeth, a'r frenhiniaeth.

Carwn allu manylu ar brofedigaethau Cristionogion y canol-oesau, ond ni chaniata amser i mi wneud mwy na chyffwrdd â rhai o agweddau'r frwydr fawr am Ryddid.

Gellir dosrannu'r frwydr hon i bedwar o gyfnodau, fel hyn:—(1) Cyfnod yr ymladd am Ryddid meddwl; (2) Cyfnod yr ymladd am Ryddid addoliad; (3) Cyfnod goruchafiaeth rannol, sef cyfnod goddefiad; (4) Cyfnod goruchafiaeth gyflawn, sef cyfnod cydraddoldeb crefyddol llwyr.

(1) I ddechreu, ni chaniateid hawl dynion i feddwl a barnu drostynt eu hunain. Ceisid eu gorfodi i gyd i feddwl ar yr un llinellau—llinellau'r eglwys wladol ar y pryd—yr Eglwys Babyddol. Gellid meddwl y cydnabyddid yr hawl i feddwl fel un o'r rhai mwyaf elfennol a sylfaenol ym mywyd dyn, ond nid felly y bu. Yr

oedd heresi yn drosedd enbyd, a chofier nad oedd heresi yn ddim ond gwadu athrawiaeth yr eglwys, neu gondemnio ei llygredigaeth, neu wrthwynebu ei swyddogion.

Canlynwyr John Wycliffe oedd Protestaniaid cyntaf y wlad hon, a thra'r oedd yr eglwys wladol yn un Babyddol yr oedd Protestaniaeth yn heresi. Rhyfedd fel y mae heresi yn newid ei gwedd. Y mae mwyafrif mawr o eglwysi'r wlad hon heddyw yn hereticiaid, o'u barnu wrth safon yr eglwys cyn 1509—blwyddyn esgyniad Harri'r 8fed i orsedd y wlad. Nid yr un peth a gynhwysa heresi ymhob cyfnod.

Yr oedd daliadau canlynwyr John Wycliffe, mewn llawer cyfeiriad, yn rhai hynod o oleuedig. Er hynny, hereticiaid oeddent, ac yn nechreu'r 15fed ganrif pasiwyd cyfraith lem yn eu herbyn. Yr oedd yr hereticiaid hyn i'w llosgi'n gyhoeddus mewn man amlwg os y gwrthodent wadu eu dysgeidiaeth, neu, os wedi ei gwadu unwaith, y mynwesent hi drachefn. Bu canlyniadau'r ddeddf hon i'r Protestaniaid hyn yn ofnadwy a chreulon, ac yn ystaen bythol ar yr eglwys a'r awdurdodau tymhorol.

Rhyfedd mor gyffredin y bodola'r syniad, hyd yn oed heddyw, fod gorthrwm yn debyg o lwyddo a gorchfygu. Mae'n amheus gennyf a lwyddodd gorthrwm ac erledigaeth erioed yn y pen draw i ddifodi egwyddor, i ladd cydwybod, neu ddiffodd tân enaid dyn neu blaid a ymladdai am gyfiawnder. Nid yw ein llywodraethwyr hyd yn oed eto wedi llwyr ddysgu gwers gyffredinol hanes. Erlidiwyd Iesu a'i blaid fechan, ond ni laddwyd Cristionogaeth. Ceisiwyd difodi Protestaniaeth drwy rym cyfraith, ond, fel y gwelir, ni lwyddwyd.

Yn nheyrnasiad Harri'r 8fed a Iorwerth y 6fed, hynny yw, o 1509 i 1553, daeth Protestaniaeth i fwy o ryddid ac awdurdod. Collodd yr Eglwys Rufeinig ei dylanwad, a diddymwyd yr hen ddeddfau a gyfreithlonent losgi hereticiaid, a'r gwaethaf a syrthiai i ran Pabyddion yn ystod teyrnasiad Iorwerth oedd carchar neu ddirwy.

Ond pan fo brwydr fawr dros egwyddor yn cyffwrdd a rhagfarnau dynion, anaml y llwyddir i'w hennill yn uniongyrchol. Felly y bu yn hanes y frwydr fawr am ryddid i feddwl a barnu ac addoli.

Pan esgynnodd y Frenhines Mari Waedlyd i orsedd Lloegr, yn 1553, dechreuodd erledigaeth y Protestaniaid drachefn. Pum mlynedd ei theyrnasiad hi fu cyfnod yr erledigaeth ddygnaf a welodd y wlad hon erioed, ac ail-sefydlwyd rhai o'r hen ddeddfau erlid.

Yn ystod y deyrnasiad ddilynol, —eiddo Elizabeth, chwaer Mari—newidiodd pethau er gwell unwaith eto, a diddymwyd am y waith olaf y deddfau a ganiatai llosgi hereticiaid. Yn y flwyddyn 1559 o deyrnasiad y frenhines hon pasiwyd Deddf Unffurfiaeth, yr hon a orfodai pawb i dderbyn y Llyfr Gweddi ac i fynychu Eglwys y Plwyf.

(2) Dyma ddechreuad yr ail gyfnod y soniais am dano. Chwi welwch fod gorfodaeth yma eto, ond bellach yr oedd y frwydr wedi cymryd gwedd newydd. Yn y gorffennol, ymdrechid i gael pobl i feddwl yn yr un modd; y drosedd fawr oedd heresi. Bwriad y Ddeddf Unffurfiaeth hon oedd cael gan bobl i addoli yn yr un modd, ac nid yn ol eu dewis.

O amser Elizabeth ymlaen, ciliodd heresi i fesur mawr o'r golwg, a daeth Anghydffurfiaeth yn amlwg. Cydnabyddai cyfarwyddwyr Elizabeth hawl dyn i farnu drosto ei hun, ond ni welent fod yn rhaid i bob barn wrth ei llafar ei hun a'i ffurf ei hun mewn addoliad. Methiant, wrth gwrs, yn y pen draw, fu'r ymgais i orfodi dynion i addoli mewn dull gosodedig.

Pe gofynnid i mi heddyw paham yr wyf yn Undodwr, fy rheswm cyntaf a phwysicaf fyddai hwn—fod yr adran Undodaidd o'r Eglwys Gristionogol yn caniatau i mi berffaith ryddid i feddwl a barnu drosof

fy hun, ac i addoli yn fy null fy hun.

Mae'r rhyddid hwn yn unol a gosodiadau'r Duw mawr Ei hun. Y mae Efe wedi cynysgaeddu dynion â meddwl a rheswm, nid i'w hanwybyddu a'u diystyrru, ond i'w defnyddio i chwilio am y gwir a'r goleuni. Dyna'r modd a ordeiniodd y Tad goreu i alluogi dyn i esgyn o ris i ris i weledigaeth uwch.

Ni fwriadodd Duw erioed i ddyn ddeibyn ei grefydd yn ail-law, heb fod y grefydd honno yn cydweddu a'r goleuni uchaf yn yr unigolyn ei hun. Peth rhwng dyn a'i Dduw yw ei grefydd, ac nid peth i'w lywodraethu gan eglwys, llywodraeth na brenin. Nid crefydd cynghorau sydd yn eisiau ar ddyn, ond crefydd bersonol sydd mewn cydgord a'r goreu sydd ynddo.

Prin, efallai, y tybiwch fod eisiau pwysleisio hyn yn yr oes hon. Nid wyf yn sicr o hyn. Y mae gwneud hynny yn ein hadgoffa o beryglon, dioddefiadau ac ymdrechion y tadau yn ceisio sicrhau i ni enedigaeth fraint deg a bendigedig—y rhyddid gwynfydedig i addoli Duw mewn modd cydnaws â'n natur oreu a'n goleuni uchaf. Rhaid cofio hefyd fod lluaws mawr o'r hil ddynol, hyd yn oed heddyw, yn derbyn eu cred oddiwrth bab neu eglwys, heb na llais na llaw yn y byd yn ei phenderfynu.

I ddychwelyd at bwnc datblygiad yr eglwys mewn rhyddid. Cyn ailsefydlu brenhiniaeth yn Lloegr, ar ol marw Cromwell yn 1658, defnyddiodd Siarl yr Ail, a oedd ar y pryd yn Holland yn disgwyl am alwad i'r orsedd a gollodd ei dad, y geiriau canlynol, er mwyn hyrwyddo'r mudiad o blaid ei ddychweliad :—"Yr ydym yn cyhoeddi rhyddid i gydwybodau tyner, ac ni bydd angen i neb i ofni, ac ni ddrwgdybir neb am wahaniaethau barn ar faterion crefyddol, na aflonydda ar heddwch y deyrnas; a byddwn yn barod i gydnabod y cyfryw gyfraith a gynygir i ni, ar ol ystyriaeth addfed, i ganiatau y rhyddid cyflawn hwn."

Addewid fendigedig a gobaith gwirioneddol i'r saint! Ond, sut y bu? Anghofiodd y brenin ei addewid yn fuan iawn. Trodd y cwbl allan yn rhith.

Pasiwyd, yn 1662, Ddeddf Unffurfiaeth arall. Gorfodai'r Ddeddf hon bob offeiriad ac ysgolfeistr i ddefnyddio'r Llyfr Gweddi newydd, ac i fynegi eu cred ddiysgog ymhob peth a oedd ynddo. Gorfodaeth eto, ond methiant hefyd! Trowyd allan o'u heglwysi 2,000 o offeiriaid, ond daliasant i bregethu er gwaethaf erledigaeth ddidrugaredd.

Yn ystod llywodraeth yr un brenin pasiwyd cyfraith a elwid y *Conventicle Act*—Deddf Cydgynnull—a'i gwnai hi'n anghyfreithlon (a) i wrthod mynychu Eglwys y Plwyf, ac (b) i fwy na phump i ymgynnull mewn unrhyw wasanaeth crefyddol, heblaw'r un a sefydlwyd drwy ddeddf. Gwnai hyn hi'n rhaid i'r 2,000 offeiriaid a'u canlynwyr i gydymgynnull yn ddirgel. Ceisiai'r awdurdodau chwilio allan eu cyrchfannau, ac aflonyddai swyddogion a milwyr arnynt yn fynych.

Yna pasiwyd y *Five Mile Act*. Yn ol hon, yr oedd yn drosedd i unrhyw weinidog anghydffurfiol fyned hyd yn oed o fewn i bum milltir i fan lle y bu yn weinidog, neu fyned o fewn i bum milltir i ddinas neu fwrdeisdref. Yn ystod teyrnasiad y brenin hwn, bu yn agos i 8,000 o anghydffurfwyr farw yng ngharchar.

(3) Yn y flwyddyn yr esgynnodd Mari yr Ail, sef yn 1689, cymerodd pethau wedd newydd, a phasiwyd y *Toleration Act*. Dyma gyfnod Goddefiad. Y Ddeddf Goddefiad fu sylfaen rhyddid crefyddol y wlad. Ar ol yr holl erlid, ymddangosai'r ddeddf hon yn doriad gwawr. Er hynny i gyd, yr oedd y Ddeddf ymhell o fod i fyny a syniad y dyddiau presennol am ryddid crefyddol. Nid oedd bendithion y Ddeddf i'w hestyn i rai a wadai Athrawiaeth y Drindod.

(4) Cyfnod Cydraddoldeb. Wedi

unwaith i'r syniad o gyd-oddefiad dderbyn grym cyfraith, gellid disgwyl mai ar gynnydd yr ai'r ysbryd rhyddfrydig, ond nid felly y bu yn hollol. Yn ol a blaen yr aethai pethau yn eu tro, ond ar y cyfan ymlaen, nes dyfod i'r *stage* olaf—un o gydraddoldeb crefyddol—nes, erbyn heddyw, ni erys yng Nghymru un math o Eglwys Sefydledig, ac nid oes Anghydffurfwyr yn bod.

*(Pw barhau.)*

---

## LWK-SÎ.

["*A man may smile, and smile and be a villain.*"]—Shakespeare.

---

Lwk-sî! Y mae rhywbeth yn swn y gair i fynd a'n bryd. Y mae fel ambell ddyn, er edrych yn syn a hir arno nid ydych nemor callach. Eto diddorol yw edrych ar destun na fedrir ei blymio. Y mae'n gywir fel yr amser gynt a ninnau gylch y tân, a rhywun yn rhoi pôs i ni er ein hatal i darfu ar yr hedd. Felly ydyw gyda Lwk-sî. Ofer troi dail geiriadur na'i chwilio ymhlith enwau duwiau chwedloniaeth. Ofer yw ceisio dyfalu. Medr fod yn enw ar ddarganfyddiad newydd neu un o dduwiau angof yr Aifft. Gwn y try gwladwr syml oddiwrth fy llith gan dybio mai enw ar rywbeth na ddisgwylir iddo ef wybod ydyw ond nid oes raid iddo. Enw newydd spon ydyw ar elfen sydd yn rhy gyffredin ymhob cyfeiriad. Fe'i ceir yng nghymeriad y tlawd a'r cyfoethog, y dysgedig a'r anllythyrennog, ac am a wn i, Lwk-sî sy'n gwneuthur bywyd mor anreol.

Y mae rhyw ddieithrwch mewn testun newydd sy'n cyffwrdd a'r awydd gwybod ymhob dyn, a chredaf y golyma Lwk-sî ddigon ar awydd pobun i ddarllain nes gwybod o leiaf. Erys llawer o'r plentyn mewn dyn er prifio ohono, a da hynny. Y mae pob plentyn yn 'shon-holwr' tan gamp, ac nid rhwydd i ddyn ddangos ei fod yn gwybod rhyw lawer. Gyda llaw, trueni o'r mwyaf i unrhyw rieni bylu yr awch am wybod sydd ynghalon y plentyn; dyma sydd yn ei dynnu i brifio. Y mae Lwk-si'n dda felly ambell dro, ond i chwi beidio cael gormod o honno.

Nid ydyw ond gair cyffredin ddigon wedi'i weled. Gair gwneuthur ydyw o eiddo Prydeinwyr yn China, ac y mae'i gyfansoddiad yn ddiddorol ac awgrym ynghudd ynddo. Ffurfiwyd ef drwy gydio dau air cyfystyr a'i gilydd—*look* a *see*, er dangos, hwyrach, fod dyn am i chwi weled ynddo o leiaf y dwbl a fedrwch weld, ac sydd ynddo'n naturiol. Rhyw ddryll dwbl-faril ydyw ond heb ond un yn gweithio.

Cefais i'r gair gan swyddog yn y fyddin oedd wedi treulio rhyw chwarter canrif yn China, ac wedi dychwelyd i'w hen fro, ac y mae llawer o synwyr cyffredin yn y gair. Pan fyddo rhywun yn gwneuthur rhywbeth yn China er ymddangosiad, er mwyn ei weled, Lwk-sî y'i gelwid, a Lwk-si felly ydoedd gweddi y Pharisead yn y deml gynt, a llawer o'n seremoniau ninnau, gyda llaw.

Hoffais awgrym y gair. Gogleisiodd fi o weled fod y gwr a'i ffurfiodd wedi treiddio'n ddwfn i'r natur ddynol, a throes o China at Gymru fynyddig er gweld faint o Lwk-sî sydd mewn bywyd.

Yn yr ardd wrth gefn y ty digwyddodd tro ysmala i mi o leiaf. Mewn 'border bach' lle na thyfir dim ond blodau y digwyddodd. Yr haf diweddaf, yn gynnar iawn, edrychwn

am flodeuyn a blenais yn y gwanwyn. Credwn ei bod yn bryd iddo ddechreu ymysgwyd o'r llwch, a rhyw fore wele rywbeth yn ymddangos. Mawr y dyfrhau fu arno dro ac yntau'n tyfu'n gyflym, cyflymach na'm disgwyl. Yr oedd disgwyl ar i'r blodeuyn agor er gweld ei liw. Clywais am 'reversion to type,' (a rhwng cromfachau 'reversion to type' yw dyn yn tynnu'n ol at yr asyn a'r mwnci yn lle bod yn ddyn). Nid oedd dim yn y lliw na'r llun, a phan aroglais ef nid oedd dim am dani ond ei ddiwreiddio ar unwaith. Nid fy mlodeuyn i ydoedd ond rhyw chwyn yn tyfu'n rhagorol oherwydd y dyfrhau. Lwk-sî oedd y cyfan, ond nid dim ond yn yr ardd y ceir troion felly. Ys dywed un awdwr, 'Men are not what they seem.'

Y mae'n Wener y Groglith a minnau gartref. Sylwaf ar hyn ac ar arall yn ddifeddwl ddigon. Clywaf gloch y llan yn galw ryw ganllath oddiwrthyf. Bob yn dipyn y mae *mynd* ar y stryd, pob un yn treulio'r diwrnod wrth fodd ei galon, oni ddaw gorfod ar rywun. Y mae tynfa un tua'r Eglwys a'r llall tua'r *Golf Course*. Y mae mwstwr y moduriau a'r lwrd yn dywedyd fod ereill yn mynd ymhellach. Fan draw gwelaf ddeuddyn ieuanc. Cerddant ryw ganllath gyda'i gilydd, ond dywed gwisg y pur fod gwahanu yn ymyl. Yr oedd un yn ei ddillad Sul a'r llall mewn dillad gwaith, un a'r Llyfr Gweddi Gyffredin dan ei braich, a'r llall a fforch a rhaw ar ei ysgwydd. Tynnai un tua'r Eglwys a'r llall at ei *allotment*. Dyna deulu'n gwneuthur y goreu o'r ddau fyd fel petae. Faint o Lwk-sî oedd yno tybed?

Arosaf yn hir er gweled y bobl yn troi tuag adref. Ni amheuaf. Ni farnaf. Gwelais fywydau rhai ohonynt ddoe. Caf weld yfory fywydau eraill. O'u gweled, daw un gofyniad yn fyw i'm meddwl, a gofynnaf yn ddifrifol, 'Faint o Grefydd a faint o Lwk-sî sydd mewn bywyd?'

* * *

Yr wyf yn hoff, oni bydd cwmni gennyf, o edrych yn ffenestri siopau. Nid yw o un gwahaniaeth gennyf beth a fydd yno. Y mae pob math ar nwyddau bellach yn ddiddorol, a rhai'n llawer mwy diddorol na chynt. Nid oes dim prydferthach i'w weled na ffenestr siop wedi'i *dresso*, ac y mae'n naturiol barnu'r siop wrth y ffenestr, ond myn profiad ein bod yn cyfeiliorni felly. Y mae ambell siop a'r cyfan yn y ffenestr. Gwn am siop a ffenestr ardderchog iddi. Gallasech dybio nad oedd eisiau petruso gofyn am ddim yno, ond fel y mae gwaethaf y modd, y mae'r cyfan yn y ffenestr, a llawer o honynt yn *shop soiled* er's llawer dydd.

Rywsut, y mae meddwl i ar y Sul a'r Wyl yn hedeg yn ol at yr hen siop. Nid oes hawl gan ddyn farnu'i gyd-ddyn, ond oni fedr bywyd ddal barn onest goreu po leiaf o Lwk-sî fydd yn perthyn iddo. Nid dim ond siopwr yw *dresso'r* ffenestr. Y mae pob un o honom wrthi byth a beunydd, ac awgryma hyn i mi nad oes neb ohonom yn fodlon ar ei fywyd fel y mae'n ei fyw. Ymddangosem ein bod yr hyn a ddymunem fod neu'r hyn yr ym am i bobl dybied ein bod. Mewn gair *actors* ydym. Chwareuwn ran a gwyr y goreu ynom fod rhyw dwyll yn y cyfan i gyd nes gwneuthur popeth yn annaturiol. Yr ym yn *gorliwio*. Ceir awgrym o hyn yn hanes y gair Saesneg *sincere*. Gwyr y cyfarwydd ei ystyr. Yn yr adeg fore yr oedd cerfluniau Groeg i'w cael i harddu Rhufain, ond ymhen tipyn dechreuasant brinhau. Perodd hyn i gerflunwyr Rhufain ymdrechu, ond yr oedd cymaint o dwyll—cymaint o Lwk-sì mewn cerflun fel yr oedd y prynwr yn gofyn i'r cerflunydd arwyddo fod y marmor heb nam arno. Pe digwyddai fod agen yn y marmor llenwid hi a chŵyr, ond chwareuai amser a gwres gastiau a'r cŵyr a'r cerflun fel y ffurfiwyd gair newydd, neu *glause* newydd i ddywedyd nad oedd nam yno, a dyna yw *sincere*—Lladin '*Sine Cerâ*,' neu'n Gymraeg, 'Heb Gŵyr.' Awgrym yw'r gair *sincere* fod gormod o Lwk-sî ym mywyd cerflunwyr Rhufain gynt.

Y mae gennyf gydnabod, a chredaf, o leiaf, fy mod yn ei adnabod yn lled dda. Y mae'i wên fel y mêl, a'i groeso dros ben o serchog. O edrych ym myw ei lygaid a gwrando ar ei lais gallasech hyderu ynddo a rhoi'ch bywyd yn ei law. Eto ambell un iawn sy'n rhoi hyder ynddo. Y mae gormod o Lwk-sî yn ei gyfeillgarwch, ac nid oedd Sheridan ymhell o'i le pan ddywedodd fod crefydd a chyfeillgarwch yn lled debig i'w gilydd, oherwydd po deneuaf y byddant, mwyaf i gyd o broffesu sydd yn eu cylch, a chofiaf am *advertiso* ambell foddion. Pe yfid potelaid ohono, ni byddai marw yn hanes dyn ellid tybio. Os nad oes crefydd yn eich calon yr ydych am ymddangos yn grefyddol, a dyna lle daw Lwk-sî i fywyd. Myn un awdur nad yw'r byd ond ymddangosiadau—ond Lwk-sî, os mynner. Ni wn, ond gwn fod pob nofelydd a dramodwr yn darlunio'r *villain* bob amser a rhyw gymaint o *shine* arno, ys dywedai Shakespeare. '*A man may smile and smile and be a villain.*' Nid ydynt yn cyfeiliorni ychwaith. Y mae dyn yn caru Lwk-sî. Y mae'n well gan y llu'r pres gloyw na'r aur garw. Nid yw'r gwr gonest nad ofna wyneb dyn ac a saif dros egwyddor yn dderbyniol o gwbl. Y mae'n well gennym y ceiliog gwynt sy'n chwerthin dan ei ddannedd o weled mor blentynaidd y cymerwn ein twyllo. Nid yw'r cyfan ond Lwk-sî, a phe gofynnid inni beth sydd yn suro, ie, ac yn damnio bywyd heddyw ymhob cylch, cyfeiriwn at destun fy llith gan ddywedyd—Lwk-sî, ac eilwaith Lwk-sî.

O.

---

## CYFNODAU YN HANES PAUL.

Ar ddiwedd ei daith genhadol gyntaf, dechreuodd yr ysbryd Iddewig cul hwnnw ddangos ei hunan yn yr Eglwys Gristionogol, a'r hwn y gorfodid Paul i frwydro drwy ei holl fywyd. Daeth rhai Cristionogion Phariseaidd o Jerusalem, a dywedent ei bod yn rhaid i bob Cenedlddyn a ddeuai'n Gristion wneud yr holl ddeddf Lefiaidd, neu nid achubid ef,—hynny yw, os y deuai pagan, neu Rufeiniwr, neu Roegwr yn Gristion, y byddai'n rhaid iddo ddyfod yn Iddew ar yr un pryd—y byddai'n rhaid iddo fyned i mewn i Gristionogaeth drwy ddrws Iddewaeth. Gwrthwynebai Paul a Barnabas yr athrawiaeth hon; ac felly penderfynwyd anfon i Jerusalem i ymgynghori a'r Apostolion yno, ac aeth Paul a Barnabas i fyny i'r amcan hwn. Yr oedd yn awr oddeutu ugain mlynedd er marwolaeth Crist. Ffrwyth y gynghorfa gyntaf hon oedd ei bod yn ddianghenrhaid enwaedu y Cenhedloedd, ond iddynt yn unig cydymffurfio ag ychydig reolau gorchymynedig i broselytiaid y porth. Cedwir llythyr gwreiddiol y gynghorfa hon, yn datgan y penderfyniad hwn, yn yr Actau, ac y mae'n weithred gyhoeddus gyntaf yr Eglwys Gristionogol adnabyddus i ni.

Ar ol hyn, daeth i feddwl Paul y gwnelai groesi o Asia i Ewrop. A digwyddodd iddo hwylio oddiar safle'r Hen Gaerdroea i oresgyn Ewrop, fel yr hwyliodd y Groegwyr, fil o flynyddoedd cyn hynny, o Ewrop i oresgyn Asia.

Yn nesaf, aeth Paul o Philippi i Thessalonica, o Thessalonica i Berea, o Berea i Athen. Pan yr aeth Paul i mewn i Athen, nid oedd, fel y mae yn awr, yn bentwr o adfeilion, ond yn orchuddedig gan demlau, cerf-ddelwau, ac allorau dirifedi, — "llygad Groeg." Felly,

yr oedd Athen, pan yr aeth Paul i mewn iddi, yn amgueddfa celf, hanes, a chrefydd.

Y fath adeg oedd honno! Yr oedd yn un o dro-bwyntiau yn hanes dynoliaeth. Gallai hen dduwiau Groeg, pe gallasent lefaru o'u beddau, ail-adrodd geiriau tebyg i eiriau Ioan Fedyddiwr ar achlysur arall, pan y clywent enw Duw yn cael ei lefaru oddiar Areopagus: "Rhaid ydyw iddo ef gynnyddu, ac i ninnau leihau." "Yr hwn yr ydych chwi heb ei adnabod yn ei addoli, hwnnw yr wyf fi yn ei fynegi i chwi," meddai Paul. Athen ddoeth yn addoli mewn anwybodaeth! ac i'w goleuo gan Iddew! Nid rhyfedd iddynt droi ymaith, gan guddio'n foesgar eu diystyrwch gyda'r sylw "ni a'th wrandawn drachefn am y peth hwn." Ni wyddent, ac nis gallent wybod, fod dyn mwy na'u mwyaf hwy,—dyn oedd i ddylanwadu mwy ar y byd na'u dynion mwyaf hwy, er cymaint ddylanwad y cyfryw. Mae rhywbeth yn drist mewn cyfarfod o'r fath, lle nad yw ystyr bwysig yr awr yn wybyddus i'r naill na'r llall o'r partion; pan ddaw cyfarfod pwysig mawr o'r fath, a'r foment yn cael ei gollwng ymaith yn esgeulus fel unrhyw un arall, fel pe i ddychwelyd. Ond, mae awr yr ymweliad yn myned, ac ni ddaw yn ol byth mwy.

Ar ol hyn, dychwelodd Paul i Jerusalem, ac yn Jerusalem yr oedd ei fywyd mewn mwy o berygl ymhlith yr Iddewon, ei frodyr, nag y bu erioed ymhlith y paganiaid. Ymddengys oddiwrth Lyfr yr Actau fod y ddau ddosbarth Iddewon—y rhai oeddynt Gristionogion a'r rhai nad oeddynt—yr un mor benderfynol ar roddi terfyn ar ei fywyd. Rhybuddiodd yr Apostolion ef, mor gynted ag y cyrhaeddodd Jerusalem, o'i berygl, a cheisient ei helpu i ddianc drwy wahanol gynlluniau, ond i ddim pwrpas. Yr oedd miloedd o Gristionogion Iddewig yn y ddinas, meddir, a'r oll yn benboethiaid dros y ddeddf Iddewig. Hwy gydsyniasant, ond yn hynod anewyllysgar, nad oedd eisiau i Gristionogion Cenhedlig ddyfod yn Iddewon; ond yr oedd eu tôn a'u tymer y fath fel, y funud y dywedodd Paul fod Iesu wedi ei anfon ef yn Apostol at y Cenhedloedd, nag oedd yna floedd gyffredinol yn eu plith nad haeddai ef gael byw. Dim ond ei bresenoldeb meddwl yn unig a achubodd ei fywyd ddwy neu dair gwaith rhag eu gelyniaeth chwerw. Bu mewn perygl am ei fywyd un tro oddiwrth nifer o bobl a wnaethant adduned ddifrifol na fwytaent ac nad yfent nes ei osod i farwolaeth. A gadwyd ganddynt eu hadduned o beidio bwyta ac yfed, nis gwyddom; ond gwyddom, beth bynnag, nas lladdwyd ef ganddynt, oherwydd clywodd Paul am y peth, ac hysbysodd yr awdurdodau, ac anfonwyd ef dan gard *(guard)* i Cesarea—prif orsaf llywydd y dalaith.

Canlynodd goruchwylwyr y Sanhedrim ef yno, a chyhuddasant ef, a chanddynt gyfreithiwr Rhufeinig fel dadleuydd, i erlyn Paul yn Lladin. Cadwodd Felix ef am ddwy flynedd, ac yna gadawodd ef gyda ei olynydd, Festus. Cynnygiodd Festus ei anfon ef i Jerusalem i gymryd ei dreial o flaen y Sanhedrim; ond gan fod Paul yn gwybod y byddai hyn yn gyfartal i angau, apeliodd at Cesar, fel dinesydd Rhufeinig, ac hawliodd ei dreio yn Rhufain. Os na byddai ef wedi bod yn barod yn y fel yma at bob cyfyngder, diau y gwnelai syrthio'n aberth i gasineb chwerw a llidiog yr Iddewon—ac mae'n achos ofni fod yn rhaid ychwanegu, y Cristionogion Iddewig, hefyd, oherwydd yr oedd yr Apostol Iago a miloedd o Gristionogion yn byw yn Jerusalem yr holl amser hyn yn dawel. Perygl Paul oedd nid bod yn Gristion, ond mewn bod yn Gristion rhyddfrydig, —un a hawliai ar fod iau y ddeddf Iddewig i gael ei dryllio'n llwyr, gan fynegi fod y gwahaniaeth rhwng Iddew a Chenedl-ddyn yn cael ei ddiddymu yng Nghristionogaeth. Yn Rhufain, brenhines y byd, pwy ymhlith athronwyr, seneddwyr, a

phendefigion balch, wyddai beth oedd y digwyddiad hanesyddol gymerai le pan y dygwyd Paul yn garcharor mewn cadwyn, i'w heolydd. Ond, da y gallai Paul ei hunan ddywedyd, "Mi a ymdrechais ymdrech deg; mi a orffenais fy ngyrfa; mi a gedwais y ffydd; o hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi."

Da y gallai ef ddywedyd felly. Onid allai Paul oedranus, wrth adolygu ei holl yrfa, yn dda deimlo fod ei fywyd wedi bod yn drwyadl a chyflawn? Y fath gylch o brofiadau yr oedd ef wedi myned drwyddynt er pan yn llanc ieuanc Iddewig y myfyriai wrth draed Gamaliel! Yr oedd wedi byw pedwar math o fywyd, y byddai y naill neu'r llall ohonynt yn ddigon i wneud enw unrhyw ddyn yn anfarwol Bywyd o feddwl dwfn, a ddatblygodd gyfundrefn o ddiwynyddiaeth oedd i lywodraethu meddyliau y dynion doethaf am hir ganrifoedd. Bywyd o waith dibaid,—ymdrechion, teithiau, gofalon am gynnydd yr eglwysi Bywyd o brofiadau ysbrydol rhyfeddol, y fath nad adnabu'r un dyn arall; cipiwyd ef i fyny hyd y drydedd nef, a mwynhaodd yr olwg ar bethau anrhaethadwy i dafod marwol. Bywyd o ferthyrdod,—"mewn blinderau yn helaethach, mewn gwialennodau dros fesur, mewn carcharau yn amlach, mewn marwolaethau yn fynych. Gan yr Iddewon bumwaith y derbyniais ddeugain gwialennod ond un." Y fath oedd bywyd Paul, mor gyfoethog, mor llawn, mor amrywiol; llawn o dreialon dwfn, llawn o orfoledd dwys; yn dangos ym mhob man allu ffydd yn yr anweledig a'r tragwyddol. Beth bynnag a wnai, a gyflawnid gan nerth ei ffydd.

"Y bywyd yr wyf yr awrhon yn ei fyw, ei fyw yr ydwyf drwy ffydd Mab Duw. Yr wyf yn gallu popeth drwy Grist, yr hwn sydd yn fy nerthu." Diau na wnaeth troedigaeth ryfeddol Paul, na chreu na difetha unrhyw gynneddf yn ei natur. Ond deffrodd y galwad Dwyfol ei holl alluoedd i'w llawn weithgarwch. Ymddangosai ei ysbrydoliaeth yng ngweithgarwch ychwanegol ei holl natur; yn lle distrywio ei natur, datblygodd hi yn ei nodweddion manylaf, a rhoddodd dylanwad ffydd gyffredinol, ac ysbryd cyffredinol, weithgarwch ddeg mwy i'w gymeriad. Ac eto, y cyflawnder o allu a ddaeth iddo drwy'r ysbrydoliaeth hon. Cyfnewidiodd gyfeiriad ei holl fywyd; tywalltodd i mewn egnion anrhaethol o obaith ac ewyllys i'w natur; rhoddodd amcan anfeidrol werthfawr i'w galon, a gallu dihysbydd i ymlid ar ei ol. Pan yn meddwl am y fath fywyd, oni raid dywedyd, mae'r dedwyddwch mwyaf all ddyfod i ddyn yn y byd hwn yw caffael ffydd?—ffydd yn yr anweledig a'r tragwyddol; ffydd yng ngwirionedd a chariad Duw; ffydd, fel ei ffydd ef, a weithia drwy gariad, a bura y galon, a'r bywyd, yn fwy a mwy, am byth.

C.C.

---

## MARWGOFION.

EBRILL 21, John Jones, Blue Bell, Llandyssul, yn 66 oed, gan adael merch, mab yng-nghyfraith, ac wyrion (gyda'r rhai y cartrefai), ynghyd a chwaer, dau frawd, a llawer o berthynasau eraill, mewn galar. Mab ydoedd i'r diweddar James ac Anne Jones, Moelhedog-uchaf, Pontshaen. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn ardal Pontshaen, a bu am

flynyddau meithion yng ngwasanaeth y diweddar Mr. D. H. Evans, y Siop, o'r lle hwnnw. Yr oedd yn weithiwr gonest, a hynod ofalus, ac ar gyfrif hynny safai'n uchel iawn yn marn ei gyflogydd. Yr oedd bron yn anmhosibl mynd o hyd i John Jones heb fynd yn ffrind iddo —yr oedd pawb yn ffrind iddo. O'r braidd nas gellir dweyd ei fod yn ymgnawdoliad o ddidwylledd a diniweidrwydd. Yr oedd yr elfen ddigrifol yn gryf iawn ynddo hefyd, megis yn ei dad. Am flynyddoedd lawer, bu'n un o ffyddloniaid yr Eglwys yn Llwynrhydowen, a bu'n ffyddlon iawn gyda'r canu, y cymanfaoedd, a'r cyngherddau. Yr oedd er's blynyddoedd yn un o ddiaconiaid yr Eglwys. Wedi symud i Llandyssul i fyw, anfynych y bu'n alluog i fynychu'r addoliad yn y lle —credwn, er hynny, ei fod gyda ni yn gyson o ran ei feddwl a'i galon Er's blynyddoedd cariai gorff afiach, ac ar adegau dioddefai lawer o boen oddiwrth y gymalwst a diffyg anadl. Erbyn hyn wele ef wedi mynd, a'r corff afiach wedi ei roi yn y ddaear. Claddwyd yr Iau dilynol, ym medd ei briod, ym mynwent Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parch E. O. Jenkins, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Ben Davies (A.), R. Morris (B.), a T. A. Thomas.

"Yn ardal y gwynfyd tragwyddol,
Cawn gwrdd a'n hanwyliaid i gyd."

EBRILL 28, yn 29 mlwydd oed, Sarah Hannah Davies, priod Daniel Davies, Richmond House, Cwrtnewydd, a merch Mr. Timothy Evans a Mrs. Evans, Tanralltgoch. Bu ei chystudd yn un blin, a pharhaodd am amryw fisoedd. Ar ol bod am rai blynyddau yn Neheudir Cymru, dychwelodd ei phriod a hithau gan ymsefydlu mewn masnach yng Nghwrtnewydd. Ymddangosai y pryd hwnnw ei bod yn meddu ar gyfansoddiad iach a chryf, a chredem y byddai yn trigo yn y lle am lawer o flynyddau. Ond goddiweddwyd hi gan afiechyd a barodd i'w nerth wanychu. Perthynai iddi rai nodweddion amlwg iawn. Yr oedd yn nodedig am ei theimlad bywiog a'i hysbryd llon. Mor gryf oedd y ddwy elfen hon yn ei natur fel yr oedd bob amser yn hapus a siriol. Meddai hefyd ar deimlad caruaidd tuag at bawb, ac yr oedd y fath berthynas gyfeillgar rhyngddi a'i chymydogion fel yr oedd yn un a hoffid yn fawr yn y lle. Yr oedd yn aelod o Eglwys Capelybryn, ac yn meddu serch tuag at yr achos yno Gadawodd briod a thri o blant ar ei hol, ac nid yw yr ieuengaf ond saith mis. Hefyd gadawodd dad a mam, dau frawd a dwy chwaer, ynghyd a pherthynasau eraill, mewn galar mawr. Aden y Tad Nefol a fyddo'n gysgod i'r amddifaid, ac a'u diogela rhag un niwed. Claddwyd yng Nghapelybryn y Gwener canlynol. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chymerwyd rhan gan y Parchn. E. Glyn Edwards (B)., Cwrtnewydd, a Daniel Jones (B.), Noddfa, Llanbedr.

EBRILL 30, yn 52 oed, yn sydyn ac annisgwyliadwy, Evan Thomas, Pencarniced, Llandyssul, gan adael chwech o blant, wyres fechan, a llawer o berthynasau eraill, mewn galar. Cydymdeimlir yn fawr a'r plant yn eu trallod, canys erbyn hyn maent wedi eu gadael yn amddifad o dad a mam. Hyderwn y bydd y Nef yn dyner wrthynt. Er's blynyddoedd, gweithiai Evan Thomas mewn chwareli, o dan y Cynghor Sir, a chyfrifid ef yn weithiwr deheuig a medrus. Yr oedd hefyd yn gwmni diddan. Ar adegau, helbulus oedd taith bywyd iddo ef fel ag i lawer ohonom, ac o bosibl fod yr helbulon hyn yn gyfrifol am ddull annisgwyliadwy ei ymadawiad. Hebryngwyd ei weddillion y Sadwrn dilynol i fynwent Bwlchyfadfa, i ymyl gweddillion ei rieni. Yn absenoldeb ei weinidog, y Parch. T. A. Thomas, Pantydefaid, gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R. H. Williams, Carmel.

MAI 7, yn 65 mlwydd oed, Mr. Samuel Evans, Farmers Arms, Pencader. Yr oedd yr ymadawedig yn adnabyddus iawn yn Nyffryn Clettwr. Yr oedd yn fab Glandwr, a bu'n byw yng Nghriborfawr am flynyddoedd. Cafodd iechyd da ar hyd ei oes, ond bu'n dihoeni am tua chwech mis neu ragor. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohono ym mynwent Pantdefaid, y dydd Sadwrn dilynol. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. John Saunders, a T. Arthur Thomas, a phregethwyd gan yr olaf yn y Capel, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd mewn galar weddw, tri mab, a thair merch, heblaw perthynasau agos eraill. Yr amddiffyn Dwyfol fo drostynt.

MAI 18, yn 60 oed, Mr. James Jones, 3 Charles Street, Llandyssul. Bu'r ymadawedig yn gwaelu am amser hir, ond er pob gofal ac ymdrech, ehododd ei ysbryd at yr Hwn a'i rhoes ar y dydd uchod. Yr oedd yr ymadawedig yn adnabyddus mewn cylch helaeth yn ardal Llandyssul, am ei fod wedi bod am flynyddoedd lawer yng ngwasanaeth y diweddar Dr. E. R. Evans, Llandyssul. Yr oedd iddo barch a gair da gan ei gydnabod ar gyfrif llawer o ragoriaethau berthynai iddo. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohono ym mynwent Penybont. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Ben Davies (A.), ac R. Morris (B.). Gadawodd weddw ac un mab mewn galar o'i golli. Tad yr amddifad a Barnwr y weddw fo'n nodded iddynt.

MAI 19, Catherine (Kitty), annwyl briod Evan Thomas, Troedybryn, ger Bwlchyfadfa, yn 53 oed. Gadawodd briod, mab, a llawer o berthynasau eraill, i wylo ei cholli. Yr oedd ei cholli yn golygu colli un o'i ffyddloniaid i Eglwys Bwlchyfadfa. Bu'n ffyddlon yn dilyn y gwasanaethau ar y Sul. Bu'n ffyddlon hefyd mewn cyfeiriadau eraill—pan fyddai rhyw fudiad ar droed, cymerai ddiddordeb ynddo, ac nid oedd yn ol o wneud ei rhan—a gwnai ei rhan yn ddistaw a didwrw. Pa syndod ei bod yn ffyddlon? onid merch Pantybryn oedd hi? a gwyr pawb sy'n gyfarwydd â hanes yr achos a'r fynwent ym Mwlchyfadfa am ddyled yr Eglwys i deulu Pantybryn. Benyw o yspryd tawel, addfwyn, garedig, oedd hi, ac yr oedd iddi lu o gyfeillion a chyfeillesau. Bu farw ar ol gwaelu am fisoedd, ac ar adegau, bu'n bur gystuddiol. Cydymdeimlir yn fawr a'r priod, sydd wedi ei adael mor unig, ac fel mae gwaethaf y modd, yn fregus iawn ei iechyd. Cydymdeimlir hefyd a'r mab sydd wedi ei amddifadu o fam radlon a charedig. Claddwyd y dydd Iau dilynol, ym mynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins

## MANION AC HANESION.

CAPEL Y BRYN.—Yn nechreu y gauaf diweddaf sefydlwyd Canghen o Undeb Merched Undodaidd a Changen o Undeb Lleygwyr Undodaidd yn y lle hwn. Ymunodd nifer dda a'r ddwy ganghen, a buont yn llafurus iawn ar hyd y tymhor. Caddeirydd cyfarfodydd y lleygwyr oedd Mr. D. Cledlyn Davies, ac athrawes y merched mewn gwniadwaith oedd Mrs. Cledlyn Davies. Dygwyd tymhor y ddwy ganghen i derfyn nos Wener, Mawrth 28, pryd y rhoddwyd gwledd o dê i'w haelodau gan Mr. a

Mrs. D. Cledlyn Davies. Gwledd odidog ydoedd, a mwynhaodd pawb hi yn fawr. Ar ol y wledd hon cafwyd adroddiadau ac unawdau gan amryw o'r bechgyn a'r merched; hefyd, cafwyd y pleser o wrandaw ar y *Gramophone*, yn cael ei lywodraethu gan Miss Evans, Court Farm. Hyfryd oedd gweled dros haner cant o fobl ieuainc yn mwynhau eu hunain gyda phethau oedd yn sicr o fod yn cael dylanwad da arnynt. Diolchwyd yn gynes i roddwyr y wledd am eu caredigrwydd.

ALLTYBLACA. – Prynhawn Gwener, Ebrill 25, cynhaliodd yr Eglwys hon ei Gwyl Dê Flynyddol. Cyfranodd bron pawb a berthyn i'r Eglwys, ac amryw o'r tuallan iddi, tuag at y wledd, a chafwyd gwledd ragorol iawn. Yn yr hwyr caed Cyfarfod Adloniadol. Cyn dechreu ar waith y cyfarfod hwn, rhanwyd dau-arbymtheg o lyfrau i'r rhai nad oeddynt wedi absenonoli eu hunain o'r Ysgol Sul fwy na thair gwaith drwy y flwyddyn ddiweddaf. Rhoddwyd y llyfrau hyn gan Miss Evans, Maesmeillion; Miss M. Evans, Dolau-canol, a Mr. T. Evans, Dolau-uchaf. Yr oedd y cyfarfod drwyddo yn un a fwynhawyd yn fawr. Mae diolchgarwch yn ddyledus i bawb a gymerodd ran ynddo, ac i Mr. Watkin Davies, Blaencruser, a Mr. Dan Davies, A.T.S.C., Belan House, Llanybyther, am eu gwasanaeth gyda'r plant a'r bobl ieuainc, ac hefyd i Mrs. Davies. Llanvaughan Cottage, am ein difyrru gyda'r *Gramophone*.

LLWYNRHYDOWEN.— Cynhaliwyd *Sale of Work* lwyddiannus iawn yn y lle hwn dydd Gwener, Mai 2. Yr oedd y *Sale* o dan nawdd Cymdeithas y Menywod a ffurfiwyd yma yr Haf diweddaf—cymdeithas, gyda llaw, ag sydd wedi gwneud daioni mawr iawn yn y lle eisoes. Yn gynnar yn yr Hydref sefydlodd y boneddigesau ddosbarth gwau a gwnio, a thrwy eu llafur hwy yn bennaf y sicrhawyd y nwyddau—ac yr oedd yno feichiau o honynt—erbyn y dydd uchod. Llywyddwyd ar weithrediadau'r dydd gan Mrs. Jones, Gellifaharen, llywydd y Gymdeithas, tra'r agorwyd y *Sale* gan gyfaill a gymer diddordeb mawr yn yr achos yn Llwynrhydowen—T. Thomas, Ysw., Cyfreithiwr, Llandyssul. Gan nad oes yma ystafell digon eang ar gyfer diwrnod fel hwn, cynhaliwyd y *Sale* yn Ysgoldy y Cynghor ym Mhontshaen. Gweithiodd pawb, yn enwedig y boneddigesau, yn galed, a da gennym allu dweyd i ni gael hwyl fawr, a phrynhawn dymunol ym mhob ystyr.

BWLCHYFADFA.—Nos Wener, Mai 16, cynhaliwyd *Social Tea* yn y lle hwn. Y Tê drosodd, cyflwynodd Miss Davies, Brynawel, ar ran y gynnulleidfa, *Silver Tea and Coffee Service* i Miss Ellen Thomas, Greengrove, fel cydnabyddiaeth fechan am y gwasanaeth gwerthfawr y mae wedi roi i'r achos yn y lle fel organyddes. Gyda'r gwaith hwn, y mae Miss Thomas wedi bod yn rhyfeddol o ffyddlon a pharod, a hynny am 15 mlynedd, os nad rhagor. Yr oedd yn amlwg oddiwrth yr areithiau draddodwyd ar y noson uchod fod ei gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan lawer. Hyderwn y caiff flynyddoedd lawer o iechyd a hwyl i'n gwasanaethu eto.

CAPELYGROES.— Dydd Llun, y 19eg o Fai, cynhaliwyd y Gymanfa Ysgolion. Yr oedd yr Ysgolion a ganlyn yn bresennol:—Capelygroes, Alltyblacca, Brondeifi, a Chaeronen. Er gwaethaf yr hin anffafriol, daeth yr Ysgolion ynghyd yn lled gryno. Holwyd yr Ysgolion gan y Parchn. L. Williams a T. O. Williams, M.A., a'r plant gan y Parch. D. Evans. Cyfeiliwyd gan Miss Jenkins, Blaenwaun. Yn yr hwyr cawd *Rehearsal*.

---

*J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.*

JUST PUBLISHED.

*Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.*

THE AUTHOR OF

# NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

*The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."*

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

**Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2**

---

# Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c.

# HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

**Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.**

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

---

# E. LLOYD JONES

# BRADFORD HOUSE

## LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —